

Diolch

Ar ran Falmai a minnau, diolch yn fawr iawn am y dymuniadau da i Gethin ac Annabel ar enedigaeth eu merch fach, Ella Grace Annie Pritchard yn Lerpwl ar Ionawr 22.

Diolch hefyd am bob cydymdeimlad â Gwenno a Dafydd wedi marwolaeth mam Gwenno, Mrs Sioned Jones, yn ei chartref yn Llangefni ar Chwefror 3.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Mawrth 23: Y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Chwefror 25: Dosbarth Beiblaidd yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 1: Gwasanaethir am 9.30 o'r gloch gan y Gweinidog, a chynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Chwefror 25: Dosbarth Beiblaidd yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 1: Bydd yr oedfa am 10.00 o'r gloch dan arweiniad Mr

Euron Hughes. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Ni fydd oedfa gyda'r nos.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 1: Gwasanaethir gan y Gweinidog am 2.00 o'r gloch. Cynhelir yr oedfa yn 'Dwyfor', Nant Peris.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mawrth 1: Ni fydd Ysgol Sul nac oedfa oherwydd gweithgareddau undebol sydd i'w cynnal ym Methesda.

CARMEL

Dydd Llun, Chwefror 23: Cynhelir y 'Dosbarth Gwau' am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 27: Cynhelir 'Dwylo Prysor' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 1: Cynhelir Oedfa Gŵyl Ddewi dan arweiniad yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a bydd yr Oedfa Gymundeb dan arweiniad y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Chwefror 27: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Gwynn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 626 Dydd Sul, 22 Chwefror, 2015

Cyfraith Macron

Emmanuel Macron yw Gweinidog Yr Economi yn Llywodraeth Ffrainc, a'i enw ef a gysylltir â deddf newydd a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Ffrainc ddydd Sadwrn diwethaf. Mae Monsieur Macron yn hyderus y bydd y ddeddf yn hwb enfawr i dwf economi Ffrainc dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n rhaid iddi gael cefnogaeth y Senedd-dŷ (sef Ail Dŷ Senedd Ffrainc), ond gan na all hwnnw wrthod deddf a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, y mae i bob pwrpas wedi ei phasio. Mae a wnelo'r ddeddf hon â sawl maes, yn cynnwys newidiadau i broffesiwn cyfreithwyr a notariaid, a diwygio trefn tribiwnlysoedd diwydiannol. Ond y peth mwyaf dadleuol amdani yw'r hyn a ddywed am agor siopau ar y Sul. Bydd gan siopau mawr hawl i agor am 12 Sul y flwyddyn yn hytrach na'r 5 presennol. Caiff siopau yn yr 'ardaloedd twristaidd' agor bob Sul; a bydd ganddynt hefyd hawl i aros yn agored tan hanner nos bob dydd.

Fe ddaw'r rheolau newydd hyn â newid enfawr i Ffrainc, lle mae'r rhan fwyaf o'r siopau ynghau ar y Sul ar hyn o bryd. Llwyddwyd i basio'r ddeddf er gwaethaf gwrthwynebiad gweithwyr ac undebau a llawer o bobl sy'n credu mai arwydd o ormes byd busnes yw'r alwad i agor y siopau ar y Sul. Mae'r cyfan yn ein hatgoffa o'r trafod a fu yng Nghymru a Lloegr cyn pasio'r Ddeddf Masnachu ar y Sul yn 1994. Mae pobl yn Ffrainc heddiw'n poeni am hawliau gweithwyr, yn union fel yr oedd pobl yn poeni yma bryd hynny. Yn ôl a

welaf fi, mae mwy o sail cymdeithasol a gwleidyddol nag o sail crefyddol i'r gwrthwynebiad i'r ddeddf hon yn Ffrainc.

Y peth gwirioneddol drist am y stori yw ei bod yn tanlinellu'r celwyddau a lyncwyd gan lawer ohonom ugain mlynedd yn ôl. Un o ddadleuon mawr y bobl oedd o blaid agor y siopau ar y Sul oedd bod rhaid i ni yng Nghymru a Lloegr gamu i'r byd modern a bod yn debyg i'n cymdogion Ewropeaidd a oedd, yn ôl a ddywedwyd wrthym, wedi hen arfer â siopa ar y Sul. Mor ddiweddar ag ugain mlynedd yn ôl, nid oeddem mor gyfarwydd ag yr ydym heddiw â theithio, ac yn sicr doedden ni ddim yn medru mynd ar y We i weld pa siopau ym mha wlad oedd yn agored ar y Sul. Oherwydd hynny, o bosibl, fe weithiodd y twyll.

Aeth y Sul yn ddiwrnod siopa mewn amser byr iawn. Allwn ni ddim newid hynny. Ond yr hyn y medrwn ei wneud yw gwneud y Sul yn ddiwrnod arbennig trwy ei wneud yn ddydd o orffwys ac yn ddydd y deun arno gydag eraill i addoli Duw a'i Fab Iesu. Rhaid osgoi'r deddfoldeb sy'n gwneud y Sul yn unig yn ddydd o *beidio* â gwneud pethau. Ond gall cadw'r Sul fod yn un ffordd o ddangos ein ffydd Gristnogol heddiw. Boed pob Sul yn arbennig a gwahanol, nid am fod deddf gwlad na thraddodiad crefyddol yn mynnu hynny, ond am ein bod ni ein hunain yn mynnu hynny er mwyn Iesu.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 22

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd C Williams

Mawrth 1

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Eric Jones

Mawrth 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mawrth 1

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - DIM OEDFA

Mawrth 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn yr Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Nid oes oedfa heno.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Dymunwn

Marwolaeth

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Gwyneth Jones, 4 High Street, Llanllechid a fu farw ddydd Mawrth diwethaf, Chwefror 17. Cynhelir ei hangladd yng Nghapel Carmel am 12.00 o'r gloch yfory, ddydd Llun, Chwefror 23.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Enid Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Llanberis yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Hefin Owen, Pentrefoelas.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Ms Helen Richards Rhes Efrog, Llanberis, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth o golli ei thad, Mr John Richards, yr wythnos ddiwethaf.

Cwrs Ieuencid

Mae rhai o ieuencid CIC Llanberis ar y Cwrs Ieuencid yng Ngholeg y Bala ers pnawn Gwener. Byddant yn dod adref ar ôl cinio heddiw.

Gobeithio byddant wedi cael amser da, a diolch yn fawr i Andrew Settatee am drefnu ac iddo fynd yno efo nhw unwaith eto.

Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod o Henaduriaeth Arfon yng nghapel Bethlehem, Aber am 1.30 o'r gloch ddydd Mawrth, Chwefror 24. Yn ystod y cyfarfod ceir gan Lywydd presennol Cymanfa Gyffredinol Eglwys

Bresbyteraidd Cymru, y Parchg Neil Kirkham, a throsglwyddir llywyddiaeth yr Henaduriaeth oddi wrth y Parchg Gwenda Richards i Dr Gwyn Lewis, Seilo, Caernarfon.

Oedfa Sefydlu

Cofiwch am yr Oedfa Sefydlu a gynhelir yng nghapel Carmel, Llanllechid am 5.00 o'r gloch, nos Sul, Mawrth 22 er mwyn nodi'n swyddogol ymestyn yr Ofalaeth i gynnwys eglwys Annibynnol Carmel a Bethlehem, Talybont pan gaiff y Parchg John Pritchard ei sefydlu'n weinidog i'r ddwy eglwys.

Estynnir croeso cynnes i aelodau'r ddwy eglwys i'r oedfa hon. Estynnir croeso hefyd i aelodau'r eglwys yn Llanberis a Deiniolen a Nant Peris i ymuno yn yr oedfa er mwyn nodi dechrau newydd yr Ofalaeth estynedig. Bydd croeso hefyd wrth gwrs i gyfeillion yr eglwys a phawb a garai ddod yno i fod yn rhan o'r dathliad a'r addoliad.

Nant Padarn

Cafwyd cyfarfod eglwys i aelodau Nant Padarn nos Lun, Chwefror 16.

Dydd Gweddi'r Chwirydd

Bydd merched Deiniolen yn cynnal eu Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwirydd yn Ebeneser am 6.00 o'r gloch, nos Wener, Mawrth 6. Croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos Lun, Chwefror 23 (nos yfory) yng nghwmni Mr Wyn Peate. Testun ei sgwrs fydd 'Dyddiadur Ysgol Yrru'. Mae croeso cynnes i bwy bynnag sydd eisiau dod i'r cyfarfod.

Carmel

Brynhawn yfory, ddydd Llun, Chwefror 23, cynhelir y 'Dosbarth Gwau' yng Ngharmel, Llanllechid am 2.00 o'r gloch.

Oedfa Gŵyl Ddewi

Cynhelir Oedfa ar gyfer Gŵyl Ddewi dan arweiniad y plant a'r ieuencid yng Ngharmel, Llanllechid am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Mawrth 1. Croeso cynnes i bawb i'r oedfa ac i aros am baned a sgwrs ar y diwedd.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Chwefror 27. Mae hwn yn gyfle i ni ddod ynghyd i weddio dros waith Efe yn bennaf, ond hefyd dros waith yr Ofalaeth.

Rehoboth

Bydd eglwys Rehoboth yn cynnal oedfa am 2.00 o'r gloch y Sul nesaf, Mawrth 1 dan arweiniad y Gweinidog. Cynhelir yr oedfaon ar hyn o bryd yn 'Dwyfor', Nant Peris. Diolch yn fawr iawn i deulu 'Dwyfor' am eu croeso bob tro.

Dydd Gweddi Efe

Bydd Cynllun Efe yn cynnal Dydd Gweddi ganol mis Mawrth yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ddydd Llun, Mawrth 16, rhwng 2.00 ac 8.00 o'r gloch.

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb yng ngwaith Efe i ddod yno pa bryd bynnag fydd yn hwylus yn ystod y pnawn a'r gyda'r nos. Nid oes rhaid i neb ddod am y cyfnod cyfan, ond bydd croeso i bobl bicio i mewn am gyfnod, hyd yn oed os mai ychydig funudau fydd hynny.